
# TACTEG
GWYDDONIAETH

## CWESTIYNAU CWIS:
## Bioleg - Poblogaeth: L5-7



1: Beth yw'r enw ar anifail sy'n fwyd i ysglyfaethwr?

2: Sut mae lleihad yn nifer yr ysglyfaethwyr yn effeithio ar nifer yr ysglyfaethau?

- ☐ cynyddu nifer yr ysglyfaethau
- ☐ lleihau nifer yr ysglyfaethau
- ☐ nid oes effaith

3: Sut mae lleihad yn nifer yr ysglyfaethau yn effeithio ar nifer yr ysglyfaethwyr?

- ☐ lleihau nifer yr ysglyfaethwyr
- ☐ cynyddu nifer yr ysglyfaethwyr
- ☐ nid oes effaith


©BBC

4: Mae organebau yn ceisio cael bwyd, gofod neu gymar. Enwa'r broses honno.

Cysyllta'r hanner brawddegau 5-9 gyda'u partneriaid (A-D).
Ysgrifenna'r ateb cywir ym mhob blwch.

**A - actif yn y dydd ac yn llai actif yn y nos.**

**B - newidiadau mewn hyd diwrnod, golau a thymheredd.**

**C - ar bryfed gwyrdd planhigion.**

**CH - cynnydd yn nifer yr ysglyfaethwyr yn y pen draw.**

**D - arwain at sefydlu tiriogaeth.**

5: Mae cynnydd mewn ffynhonnell fwyd yn arwain at ...

6: Mae addasiad tymhorol yn ymateb i ...

7: Mae cystadleuaeth am fwyd rhwng anifeiliaid yn ...

8: Mae planhigion ac anifeiliaid y dydd yn ....

9: Mae chwilod buchod coch cwta yn ysglyfaethu ...





©BBC

10: Ysgrifenna'r geiriau coll yn y bylchau cywir.

**Wedi'u peillio gan wenyn**
**Ymfudiad**
**Cysgu**
**Tymheredd**
**Lluosflwydd**

Mae pethau byw yn addasu i newidiadau bob dydd a phob tymor. Maen nhw'n ymateb i batrwm golau a thywyllwch yn ogystal â bod yn sensitif i _________________________________ . Dim ond yng ngolau'r haul y bydd blodau sydd _________________________________ yn agor gan gau yn y nos. Mae nifer o blanhigion yn goroesi'r gaeaf trwy fynd i _______________________________. Mae planhigion eilflwydd yn goroesi am ddwy flynedd trwy ffurfio storfa fwyd o dan y ddaear a gadael i'w rhannau gwyrdd wywo. Mae planhigion ____________________________ megis coed yn colli eu dail yn yr hydref ac yn tyfu rhai newydd yn y gwanwyn. Mae rhai anifeiliaid yn symud i lefydd newydd cynhesach a'r enw ar hyn yw ______________________________ .


11: Gorffenna'r brawddegau, gan ddewis yr atebion o'r rhestr isod.

**Bioddiraddadwy**
**Pyramid**
**Iau/afu**
**Llygredd**
**Pryfleiddiad**

Mae prif ysglyfaethwyr yn sensitif iawn i _______________________ yn yr amgylchedd. Erbyn hyn, mae defnyddio DDT fel ______________________ wedi cael ei wahardd. Y rheswm am hyn yw nad yw'n ___________________ac mae'n symud ar hyd y gadwyn fwyd. Mae adar bach yn bwyta pryfed sy'n cymryd ychydig bach o DDT i mewn. Mae'r adar bach, yn eu tro, yn cael eu bwyta gan brif ysglyfaethwyr megis hebogau sydd ar frig y ____________________ bwyd. Mae'r cemegyn yn wenwynig i'r adar hyn ac mae'n cronni yn yr _______________________________ gan wneud iddyn nhw ddodwy wyau bregus. Mae hyn yn lleihau'r siawns y bydd unrhyw genhedlaeth newydd yn goroesi.


©BBC

# ATEBION CWIS:
## Bioleg - Poblogaeth: L5-7



1: Beth yw'r enw ar anifail sy'n fwyd i ysglyfaethwr?

**Ysglyfaeth**

2: Sut mae lleihad yn nifer yr ysglyfaethwyr yn effeithio ar nifer yr ysglyfaethau?

☑ cynyddu nifer yr ysglyfaethau

☐ lleihau nifer yr ysglyfaethau

☐ nid oes effaith

3: Sut mae lleihad yn nifer yr ysglyfaethau yn effeithio ar nifer yr ysglyfaethwyr?

☑ lleihau nifer yr ysglyfaethwyr

☐ cynyddu nifer yr ysglyfaethwyr

☐ nid oes effaith



©BBC

4: Mae organebau yn ceisio cael bwyd, gofod neu gymar. Enwa'r broses honno.

**Cystadleuaeth**

Cysyllta'r hanner brawddegau 5-9 gyda'u partneriaid (A-D).
Ysgrifenna'r ateb cywir ym mhob blwch.

**A - actif yn y dydd ac yn llai actif yn y nos.**
**B - newidiadau mewn hyd diwrnod, golau a thymheredd.**
**C - ar bryfed gwyrdd planhigion.**
**CH - cynnydd yn nifer yr ysglyfaethwyr yn y pen draw.**
**D - arwain at sefydlu tiriogaeth.**

5: Mae cynnydd mewn ffynhonnell fwyd yn arwain at ...

**CH - cynnydd yn nifer yr ysglyfaethwyr yn y pen draw.**

6: Mae addasiad tymhorol yn ymateb i ...

**B - newidiadau mewn hyd diwrnod, golau a thymheredd.**

7: Mae cystadleuaeth am fwyd rhwng anifeiliaid yn ...

**D - arwain at sefydlu tiriogaeth.**

8: Mae planhigion ac anifeiliaid y dydd yn ....

**A - actif yn y dydd ac yn llai actif yn y nos.**

9: Mae chwilod buchod coch cwta yn ysglyfaethu ...

**C - ar bryfed gwyrdd planhigion.**




©BBC

10: Ysgrifenna'r geiriau coll yn y bylchau cywir.

**Wedi'u peillio gan wenyn**
**Ymfudiad**
**Cysgu**
**Tymheredd**
**Lluosflwydd**

Mae pethau byw yn addasu i newidiadau bob dydd a phob tymor. Maen nhw'n ymateb i batrwm golau a thywyllwch yn ogystal â bod yn sensitif i **tymheredd** . Dim ond yng ngolau'r haul y bydd blodau sydd **wedi'u peillio gan wenyn** yn agor gan gau yn y nos. Mae nifer o blanhigion yn goroesi'r gaeaf trwy fynd i **cysgu** . Mae planhigion eilflwydd yn goroesi am ddwy flynedd trwy ffurfio storfa fwyd o dan y ddaear a gadael i'w rhannau gwyrdd wywo. Mae planhigion **lluosflwydd** megis coed yn colli eu dail yn yr hydref ac yn tyfu rhai newydd yn y gwanwyn. Mae rhai anifeiliaid yn symud i lefydd newydd cynhesach a'r enw ar hyn yw **ymfudiad** .

11: Gorffenna'r brawddegau, gan ddewis yr atebion o'r rhestr isod.

**Bioddiraddadwy**
**Pyramid**
**Iau/afu**
**Llygredd**
**Pryfleiddiad**

Mae prif ysglyfaethwyr yn sensitif iawn i **llygredd** yn yr amgylchedd. Erbyn hyn, mae defnyddio DDT fel **pryfleiddiad** wedi cael ei wahardd. Y rheswm am hyn yw nad yw'n **bioddiraddadwy** ac mae'n symud ar hyd y gadwyn fwyd. Mae adar bach yn bwyta pryfed sy'n cymryd ychydig bach o DDT i mewn. Mae'r adar bach, yn eu tro, yn cael eu bwyta gan brif ysglyfaethwyr megis hebogau sydd ar frig y **pyramid** bwyd. Mae'r cemegyn yn wenwynig i'r adar hyn ac mae'n cronni yn yr **iau/afu** gan wneud iddyn nhw ddodwy wyau bregus. Mae hyn yn lleihau'r siawns y bydd unrhyw genhedlaeth newydd yn goroesi.


©BBC